

# Adroddiad Gofalwn Cymru

Rhagfyr 2022

Gofalwn.cymru | WeCare.wales

## 1.1 Cefndir / Cyd-destun

Mae gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gynnal llesiant, annibyniaeth pobl ac i blant sy'n eu cefnogi i ddatblygu a thyfu. Mae tystiolaeth wedi dangos y bydd angen i'r gweithlu hwn dyfu i ddiwallu'r galw cynyddol am ofal a chymorth (yr amcangyfrif o'r galw yw oddeutu 20,000 o weithwyr newydd erbyn 2030). Mae'r galw hwn yn cael ei waethygu gan lefelau trosiant a swyddi gwag, sy'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad diweddaraf ar ddata'r gweithlu gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r ffordd y mae'r cyhoedd yn gweld ac yn deall gyrfaoedd yn y sector hwn, a'r anawsterau difrifol presennol o ran recriwtio a chadw, yn creu her go iawn.

Datblygwyd strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â'r sector. Roedd cefnogaeth gyffredinol i ddenu a recriwtio gael ei hystyried yn thema hirdymor allweddol yr oedd angen rhoi sylw iddi ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Roedd cefnogaeth hefyd i sicrhau bod cadw staff yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol o weithlu cynaliadwy wrth symud ymlaen.

Ledled Cymru mae gennym ddarlun amrywiol a chymhleth o sut mae gofal yn cael ei ddarparu a'i gefnogi ym mhob cymuned yng Nghymru: gan gynnwys dros 1,000 o gyflogwyr, dau ar hugain o awdurdodau lleol, saith rhanbarth ac amrywiaeth o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Er mwyn helpu i sicrhau cysondeb a chefnogi'r sectorau, roedd yn amlwg bod angen ymgyrch genedlaethol i roi sylw i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr ar draws gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Datblygwyd Gofalwn Cymru i ddod â chysondeb i negeseuon a rennir gyda'r cyhoedd, a gweithredu fel angor i'r gweithgarwch cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.


Ffocws y rhaglen waith hon oedd:

- codi proffil cadarnhaol gofal
- gwella canfyddiadau o ofal fel gyrfa a phroffesiwn gyda chyfleoedd i symud ymlaen
- gwella dealltwriaeth y cyhoedd o ofal a thynnu i mewn i'r gweithlu y rhai sydd â'r gwerthoedd cywir.

Defnyddir y termau 'gweithlu gofal' a 'sectorau' fel llaw-fer yn yr adroddiad hwn. Maent yn cynrychioli'r amrywiaeth o alwedigaethau, gan gynrychioli'r llu gwasanaethau a'r gweithlu – oddeutu 91,000 mewn gofal cymdeithasol a thua 23,000 mewn blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae angen i'r ddau sector dyfu er mwyn gallu bodloni'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.

Heb os, mae pandemig Covid-19 wedi cael, a bydd yn parhau i gael, effaith barhaol ar y ddau sector. Fel y crynhowyd mewn crynodeb diweddar o'r dystiolaeth, "mae'r rhesymau dros yr heriau o ran recriwtio a chadw staff yn niferus ac yn cynnwys prinder gweithwyr, canfyddiadau gwael o waith gofal, cyflog isel ac oriau gwaith gwael a natur anodd gwaith gofal[1]". Hefyd, fel y dangosir yn y diagram isod, mae'r gyfradd diweithdra yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol, gan olygu bod llai o bobl yn chwilio am waith. Mae hyn, ynghyd â'r argyfwng costau byw, yn creu her go iawn wrth geisio recriwtio i weithlu sy'n cael cyflog isel yn draddodiadol.

## Cyfradd ddiweithdra




Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru *'analysis of Labour Force Survey'*]

Wrth i faterion cadw gynyddu, mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y gweithlu presennol. Mae hefyd yn effeithio ar y gallu i wasanaethau weithredu. Bydd yr argyfwng costau byw yn cynyddu'r galw ar wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, wrth i fwy o unigolion a theuluoedd ganfod eu hunain yn byw mewn tlodi.

Mae'r diffyg parhad oherwydd trosiant staff a'r anallu i gael gafael ar wasanaethau yn effeithio ar bobl sy'n cael cymorth.

**"Mae'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol mewn argyfwng. Os na roddir sylw i hyn ar lefel genedlaethol, mae perygl na fydd awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol a rheoleiddiol. Yr effaith ar fywydau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yw nad yw anghenion yn cael eu diwallu oherwydd diffyg cefnogaeth a diffyg dewis. Roedd prinder staff â'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol yn bryder cenedlaethol cyn y pandemig. Mae COVID-19 wedi creu storm berffaith, gan newid sefydlogrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol yn sylweddol[2]."**

*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru 2021-2022*

1. Edwards, D, Trigg, L, Carrier, J, Cooper, A, Csontos, J, Day, J, Gillen, E, Lewis, R and Edwards, A. 2022. A rapid review of innovations for attraction, recruitment and retention of social care workers, and exploration of factors influencing turnover within the UK context. Journal of Long-Term Care, (2022), pp. 205–221. DOI.

2. 221020-Adroddiad-Blynyddol-2021-22-cy.pdf (careinspectorate.wales)

**1.3** Oherwydd natur ddifrifol yr amgylchiadau a oedd yn wynebu'r sectorau gofal yn ôl yn 2018, roedd yn amlwg bod angen gwneud gwaith yn genedlaethol i newid canfyddiad a dealltwriaeth y cyhoedd o ofal. Datblygwyd Gofalwn Cymru fel yr ymgyrch atynnu genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae i Gymru. Dyma'r tro cyntaf i Gymru ddod â gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae at ei gilydd mewn un cynrychiolaeth o'r sector yn canolbwyntio ar y cyhoedd.

Er mwyn datblygu gwybodaeth, cyn dylunio'r brand bedair blynedd yn ôl, cynhaliwyd arolwg canfyddiadau gyda'r cyhoedd. Comisiynwyd arolwg meincnodi cyhoeddus a oedd yn cynnwys cyfweliadau dros y ffôn ac arolygon ar-lein. Cafwyd rhagor o wybodaeth drwy ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Gynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol. Mae canfyddiadau'r cipolwg pwysig hwn ar ganfyddiadau'r cyhoedd wedi helpu i lunio negeseuon yr ymgyrch. Roedd rhai o ganfyddiadau allweddol o farn unigolion yn cynnwys:

- ni fyddai 36% yn ystyried gofal cymdeithasol fel gyrfa
- 15% yn cytuno bod swyddi ym maes gofal cymdeithasol yn rhai ar gyfer pobl heb unrhyw gymwysterau
- 51% yn meddwl bod swyddi gofal cymdeithasol yn talu'n wael a bod ganddynt oriau hir
- nid yw 26% erioed wedi clywed unrhyw beth cadarnhaol am ofal cymdeithasol.





Roedd dwy neges allweddol o'r ymchwil yn dangos nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn deall ein sector (a'n terminoleg) ac yn ail nad oeddent yn deall yr amrywiaeth o rolau ac arbenigeddau sy'n bodoli yn y sector gofal cymdeithasol.


Cafodd yr arolwg barn hwn ei ailadrodd ddwy flynedd yn ddiweddarach, ond gyda chwestiynau ychwanegol am Gofalwn Cymru a pha mor gyfarwydd oeddent â'r ymgyrch.

Yr hyn a oedd yn amlwg o'r ail set hon o ganlyniadau oedd y newid cadarnhaol yn y canfyddiad o ofal cymdeithasol - er bod yn rhaid cydnabod bod hyn wedi'i gwblhau yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, felly efallai fod barn a dealltwriaeth y cyhoedd o ofal cymdeithasol yn fwy amlwg na'r arolwg cyntaf a gynhaliwyd cyn Covid. Yn yr un modd, er ei fod yn cael ei gydnabod fel newid cadarnhaol, roedd cydnabyddiaeth a derbyniad bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

Mae’r ddau ffigur canlynol yn dangos rhai o’r cymariaethau rhwng arolygon 2018 a 2020:


## FFigur 1

**C8. "Nawr wrth feddwl pa ofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar, a gofal plant sy'n ei ddarparu, a allech chi ddweud wrthyf i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?"**



## Ffigur 2

**C9. "Os oeddech chi'n chwilio am swydd, pa mor ddeniadol ydych chi'n meddwl bod pob un o'r canlynol fel lle i weithio ar raddfa o 1 i 5?"**







Roedd y dystiolaeth yn helpu i nodi'r meysydd yr oedd eu hangen i wella canfyddiadau'r cyhoedd o'r sector gofal. Roedd ethos y gwaith hwn, a ddatblygwyd gydag arbenigwyr cyfathrebu a materion cyhoeddus, yn seiliedig ar:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwella canfyddiad y cyhoedd | Gwella dealltwriaeth y cyhoedd | Gwella gwerthfawrogiad y cyhoedd | Gwella'r ffordd y mae'r cyhoedd yn ystyried gofal fel gyrfa o ddewis |

Lansiwyd Gofalwn Cymru ym mis Mawrth 2019, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ymgyrchoedd sy'n edrych ar atyniad i'r sectorau gofal. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid, ac roedd y gwaith yn sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth gyda phartneriaid fel brand ar gyfer y sector cyfan.

Mae tystiolaeth o arloesi o ran denu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol yn nodi 11 categori o ymateb. Mae Gofalwn Cymru yn cwmpasu pump o'r rhain, gyda'r chwech sy'n weddill yn dod o dan ddulliau cydweithredol eraill fel yr amlinellir yn y diagram isod:




3. Edwards, D, Trigg, L, Carrier, J, Cooper, A, Csontos, J, Day, J, Gillen, E, Lewis, R and Edwards, A. 2022. A rapid review of innovations for attraction, recruitment and retention of social care workers, and exploration of factors influencing turnover within the UK context. Journal of Long-Term Care, (2022), pp. 205–221. DOI.

**1.4** Ni all ymgyrch gyhoeddus genedlaethol ar ei phen ei hun ddatrys pob mater sy'n ymwneud â denu, recriwtio a chadw ein gweithlu gofal. Fodd bynnag, mae Gofalwn Cymru, gweithgareddau'r ymgyrch, a'r gweithgareddau cysylltiedig, yn darparu llwyfan i herio canfyddiadau a dealltwriaeth y cyhoedd o weithio ym maes gofal. Gan ddefnyddio pobl go iawn o'r sector, mae'n hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar yrfaoedd ym maes gofal, a'i brif alwad i weithredu yw dod a phobl at wefan Gofalwn Cymru i archwilio'r amrywiaeth o rolau a gyrfaoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chwe maes gweithgarwch Gofalwn Cymru:

- partneriaeth
- ymgyrchoedd Gofalwn Cymru
- hyrwyddo cyfleoedd gyrfa
- cefnogi recriwtio
- Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol a Chyflwyniad i Ofal Plant
- y camau nesaf.



# 2. Creu a chyflawni gweledigaeth mewn gwir bartneriaeth

2.1 Mae llwyddiant Gofalwn Cymru yn gofyn bod y sector yn cefnogi ac yn 'ymrwymo' i'r gwaith. Dyma'r tro cyntaf y ceir unrhyw frand cyffredin ar gyfer gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol, blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Sefydlwyd grwp cynghori cenedlaethol (gweler Atodiad 7 am restr lawn o'r aelodau) ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Er bod y gwaith yn cael ei ariannu drwy Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'r ffocws a'r cyfeiriad yn parhau i fod yn wir bartneriaeth. Mae rhanddeiliaid yn gyfrifol am gefnogi uchelgeisiau Gofalwn Cymru drwy eu meysydd a'u rhwydweithiau eu hunain.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lwyddiant a hirhoedledd Gofalwn Cymru. Cafodd y gwaith ei greu o bartneriaeth ar draws y sectorau ac mae'n dal i gael ei fireinio a'i siapio drwy fewnbwn ei bartneriaid.

2.2 Mae rhai o'r prif bartneriaethau'n cynnwys: y GIG a chydweithio ar Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gyrfa Cymru a chysylltu ag ymgynghorwyr mewn ysgolion, a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cysylltu â Chanolfannau Gwaith ledled Cymru. Cafwyd amrywiaeth o gynlluniau i gefnogi cynghorwyr gyrfa, y rheini sy'n gysylltiedig ag ysgolion a thrwy Ganolfannau Gwaith, i'w helpu i ddeall y sectorau gofal yn well. Mae hyn, yn ei dro, yn rhoi cyngor mwy cytbwys a gwybodus i geiswyr gwaith/disgyblion. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud drwy gyfres o weminarau (gyda dros 550 o staff yn bresennol) a datblygu pecynnau/taflenni gwybodaeth.




Gofalwn .cymru | WeCare .wales

# 3. Ymgyrchoedd Gofalwn Cymru

**3.1** Neges allweddol gan randdeiliaid a'r cyhoedd yn natblygiad Gofalwn Cymru oedd sicrhau bod y brand yn un go iawn ac yn gredadwy. Roedd hyn yn cynnwys portread gwirioneddol o'r sectorau, defnyddio gweithwyr go iawn a'r rheini maen nhw'n eu cefnogi i rannu eu negeseuon o weithio mewn gofal.

Mae'r brand, yr arddull a'r adnoddau craidd a ddatblygwyd yn cadw brand heb ei alinio, sy'n golygu nad oedd yn mabwysiadu arddull neu logos presennol unrhyw sefydliad. Cafodd y pecyn cymorth i randdeiliaid, sydd ar gael drwy wefan Gofalwn Cymru, ei sefydlu i helpu partneriaid i gael gafael ar ddeunyddiau ymgyrchu i'w defnyddio yn eu gweithgarwch hyrwyddo eu hunain a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi pob partner i ddefnyddio a chysylltu â Gofalwn Cymru. Gwelwyd llawer o enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol wedi ychwanegu eu hunaniaeth eu hunain at frand Gofalwn Cymru.






**3.2** Mae sicrhau bod y gwaith yn parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd â gwir anghenion y sector, a'r canfyddiadau o'r sector, yn greiddiol i'r rhaglen. Mae casglu tystiolaeth o ymchwil a wnaed mewn arolygon barn cyhoeddus pellach a chan bartneriaid hefyd yn allweddol. Yn cynnwys ymgyrchoedd wedi'u targedu ar gyfer rolau penodol fel gofal cartref a Gweithwyr Cymdeithasol, yn ogystal ag ymgyrchoedd sy'n mynd i'r afael â rhywedd, amrywiaeth, a gwerth a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf (2019/2020) roedd y gwaith yn seiliedig ar ymgyrchoedd allweddol â ffocws pendant iddynt. Yn ystod 2020/21, parhaodd ein gwaith i dargedu ymgyrchoedd fel rhoi ffocws ar ofal cartref. Roedd yr ymgyrchoedd hyn hefyd yn cael eu cefnogi gan ddull 'ymlaen drwy'r amser' drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn sicrhau bod amlygrwydd Gofalwn Cymru yn aros yn gyson, gyda gweithgarwch â ffocws iddo yn cael ei amseru i roi hwb pellach i negeseuon a hyrwyddo adnoddau fel y porth swyddi. Ers ein lansio ym mis Mawrth 2019, rydym wedi cynnal 17 ymgyrch wedi'u targedu (gweler rhestr yr ymgyrch yn Atodiad 1). Datblygwyd pob ymgyrch yn seiliedig ar angen, ac mae'n cyd-fynd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r sectorau gofal, gan gefnogi'r gwaith o recriwtio ei weithlu.

Mae enghraifft o gyrhaeddiad ac effaith yr ymgyrch i'w gweld gyda'r ymgyrch Gofal Cymdeithasol (1 Rhagfyr – 31 Ionawr 2022):

**Cyrhaeddiad:**

- hysbyseb ar y teledu yn cyrraedd 46.21 y cant o'r boblogaeth
- amlder cyfartalog o 5.83 (y nifer o weithiau y bydd rhywun yn gweld yr hysbyseb)
- 49.59 y cant o gynnydd yn nifer y rhai a edrychodd ar dudalen ar Gofalwn Cymru (89,358)
- cynnydd o 79 y cant yn nifer y defnyddwyr newydd ar y wefan (27,045)
- sesiynau fesul defnyddiwr wedi cynyddu 3.48 y cant
- dros 18 miliwn o effeithiau/argraffiadau/cyfleoedd i'w gweld.

**Effaith:**

- 176.5 y cant yn fwy o bobl yn edrych ar swyddi ar wefan GofalwnCymru eleni o'i gymharu â'r llynedd (4,507)
- 21.08 cofrestriadau defnyddwyr newydd ar y safle
- wedi lansio dangosfwrdd cyflogwyr gyda 415 o swyddi newydd wedi cael eu cyhoeddi.
- 279 o ddefnyddwyr wedi mynd i wefan y cyflogwyr yn uniongyrchol.
- 212 o ffurflenni gofal yn galw wedi'u dechrau (asesiad ar sail gwerthoedd ar gyfer ceiswyr gwaith)

Mae'r uchelgais ar gyfer Gofalwn Cymru yn eang. Er mwyn cyrraedd pobl a chael effaith gadarnhaol ar argraffiadau a dealltwriaeth o ofal, mae angen dull cymhleth ac aml-haenog.  Mae hyn yn gofyn am amrywiaeth o ymgyrchoedd amserol ac wedi'u targedu, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl.





## 3.3 Cyfryngau cymdeithasol

Eir ati i gyrraedd cynulleidfaoedd drwy amrywiaeth o ddulliau, ac un llwybr effeithiol yw drwy gyfryngau cymdeithasol. Drwy ddefnyddio sianeli allweddol (Facebook, Instagram, Twitter ac YouTube), caiff negeseuon a chynnwys eu rhannu. Ers y lansiad, rydym wedi gweld twf cyson yn nilynwyr y sianeli a hefyd yn yr ymgysylltu â negeseuon sy'n cael eu rhannu. O ran presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol, rydym bob amser yn defnyddio dull gweithredu lle ceir ffocws penodol ar gyfryngau cymdeithasol bob mis. Mae hyn wedi'i gynllunio a defnyddir cyfran o'r gyllideb weithredu.  Dyma ffocws ymgyrchoedd mis Ebrill-Rhagfyr 2022:

- Ebrill – Gofal plant yn y cartref
- Mai – Cartrefi gofal
- Mehefin – Meithrinfa ddydd
- Gorffennaf ac Awst – Gweithiwr Cymdeithasol (hefyd dangoswyd yr hysbyseb teledu newydd ar Ofal Cymdeithasol)
- Medi – Pwysigrwydd yr iaith Gymraeg mewn gofal
- Hydref – Gweithiwr Cymdeithasol
- Tachwedd - Gofal yn y cartref
- Rhagfyr – Negeseuon am ofal cyffredinol

Ar 31 Rhagfyr 2022:

| Facebook | Instagram | Twitter |
|---|---|---|
| 4,202 o ddilynwyr | 938 o ddilynwyr | 2,260 o ddilynwyr |
| 89,372[1] ymgysylltiad | 4,121[2] ymgysylltiad | 8,857[3] ymgysylltiad |

1. 1 Tachwedd 2019 – 31 Rhagfyr 2022
2. 1 Ebrill 2019 – 31 Rhagfyr 2022
3. 12 Awst 2021 – 31 Rhagfyr 2022

# 4. Hyrwyddo cyfleoedd gyrfa

Mae ymgyrchoedd Gofalwn Cymru yn hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa a chyflogaeth. Mae hyn wedi cael ei ategu gan amrywiaeth o weithgareddau hyrwyddo gyrfa eang sy'n cynnwys:

- **Gwefan Gofalwn Cymru** – gwefan ganolog sydd ar hyn o bryd yn disgrifio 42 rôl a 12 lleoliad ym maes gofal.  Y wefan yw'r canolbwynt ar gyfer yr holl adnoddau, sy'n berthnasol i geiswyr gwaith a chyflogwyr ym maes gofal.

- **Llysgenhadon Gofalwn Cymru** – gwirfoddolwyr sy'n gweithio ym maes gofal ac yn cefnogi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r sectorau drwy ddigwyddiadau gydag ysgolion, ffeiriau swyddi ayb.

- **Cardiau Gyrfa Gofalwn Cymru** – sy'n tynnu sylw at yr amrywiaeth o rolau sydd ar gael ym maes gofal. Mae ganddynt hefyd ddolen â'r wefan i gael rhagor o wybodaeth. Mae dros 1,400 o becynnau wedi cael eu dosbarthu i bob ysgol gyfun a Chanolfan Byd Gwaith ledled Cymru. Rydym yn parhau i dderbyn ceisiadau am gopïau pellach.

- Gweithio gyda chynghorwyr gyrfa a swyddi i helpu wella dealltwriaeth o rolau yn y sectorau. Mae Gofalwn Cymru wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru i gysylltu ag ymgynghorwyr mewn ysgolion, ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cysylltu â Chanolfannau Gwaith ledled Cymru.  Mae hyn wedi galluogi cynghorwyr a hyfforddwyr i ddefnyddio adnoddau Gofalwn Cymru

- **Careersville** – cydweithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'u datblygiad o Careersville i gynnwys cynnwys ar gyfer gofal a defnyddio adnoddau Gofalwn Cymru, fel yr astudiaethau achos a ffilmiwyd.  Un o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy fwyaf yw'r adran plant a phobl ifanc.

- **Astudiaethau achos** – Dros 72 ffilm sy'n tynnu sylw at ystod eang o rolau a safbwyntiau, er enghraifft cyflogwyr, myfyrwyr a rhieni.







# 5 . Cefnogi recriwtio

**5.1** Nid yw Gofalwn Cymru yn recriwtio gweithlu newydd yn uniongyrchol i faes gofal, ond mae ganddo ran amlwg i'w chwarae o ran cefnogi'r daith recriwtio.

Mae recriwtio'r gweithlu gofal yn nwylo dros 1,300 o gyflogwyr yn y sectorau. Mae gwaith denu Gofalwn Cymru, gwella'r ymwybyddiaeth a'r canfyddiad o weithio mewn gofal, yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi recriwtio. Gall Gofalwn Cymru helpu i godi ymwybyddiaeth o swyddi gwag, cefnogi modelau recriwtio effeithiol, a gwella llif ymgeiswyr priodol.

Mae nifer o gynlluniau wedi cael eu rhoi ar waith i gefnogi dulliau recriwtio.

## 5.2 Gwefan

Yn ganolog i'r rhaglen mae gwefan gyrfaoedd sy'n cynnwys amrywiaeth o swyddogaethau:


- asedau creadigol sy'n arddangos yr amrywiaeth o "bobl go iawn" o'r sector a'u rolau
- pecyn cymorth i randdeiliaid i gyflogwyr ei ddefnyddio fel rhan o'u gwaith ymgyrchu a chodi ymwybyddiaeth lleol / rhanbarthol, gan leihau'r baich ariannol drwy gael adnoddau parod i'w defnyddio yn yr ardaloedd
- safle ar gyfer cynnal adnoddau e.e. cardiau gyrfa, tudalennau prentisiaethau, gofal yn galw, ac ati.

Fel ymateb ar unwaith i'r pandemig, cafodd porthol swyddi ei ddatblygu'n gyflym yn 2020, lle gallai cyflogwyr hysbysebu eu swyddi gwag. Mae'r gwaith o ddatblygu'r safle hwn yn parhau. Mae hon yn ffordd o ddarparu cyfleoedd, gyda gwelliannau addas i'r system er mwyn sicrhau'r canlyniad "i mewn i swydd" sydd wedi bod ar goll hyd yma.





Yn y graff yma, gwelwn ddata ymwelwyr y wefan a pherthynas y gweithgarwch ymgyrchu:




Data'r wefan (Mai 2020 – 31 Rhagfyr 2022):

**13,035**
o swyddi wedi'u postio

**1,301**
o geisiadau uniongyrchol wedi'u gwneud

**271,472**
o ymwelwyr

**357,787**
o sesiynau ar y wefan

Amser cyfartalog ar ôl ar dudalen

**1:56**
munud

(cyfartaledd cenedlaethol yr amser ar-lein fesul tudalen yw 52 eiliad)



## 5.3 Porthol Swyddi Gofalwn Cymru

Nid oes gan ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, chwarae, un man lle gall pobl weld yr holl swyddi gwag sydd ar gael. Mae amrywiaeth o lefydd i ddod o hyd i swyddi gwag; cyfryngau cymdeithasol, byrddau swyddi lleol, a safleoedd swyddi fel Indeed neu Reed.

Lansiwyd porthol swyddi Gofalwn Cymru i helpu cyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o'u swyddi gwag. Cafodd yr adnodd rhad ac am ddim hwn ei lansio'n gyflym yn ystod cyfnod prysuraf y pandemig. Ei nod oedd helpu pobl i weld y cyfleoedd sydd ar gael a chysylltu â'r cyflogwr i ddechrau'r broses recriwtio.

Cafodd yr adnodd hwn ei wella i gefnogi cyflogwyr ymhellach drwy rannu eitemau newyddion ac adnoddau â nhw drwy'r porthol. Mae gennym ni dros 700 o gyflogwyr sydd wedi cofrestru gyda'r porthol swyddi ar hyn o bryd.



## 5.4 Cefnogi recriwtio yn seiliedig ar werthoedd

Mae gwerthoedd yn allweddol yn y gweithlu gofal. Mae pobl sydd â'r gwerthoedd iawn yn fwy addas i weithio ym maes gofal ac yn fwy tebygol o aros yn eu swyddi.

Mae Gofalwn Cymru yn cadw'r gwerthoedd o weithio mewn gofal yn agos at ei galon. Mae cynnwys ein fideo astudiaeth achos yn amlygu'r gwerthoedd hyn.

Mae Gofal yn Galw hefyd wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddod o hyd i weithlu sydd â'r gwerthoedd cywir. Mae hwn yn gwis fideo sy'n profi proses gwneud penderfyniadau pobl mewn sefyllfaoedd gofal (ar hyn o bryd mae 445 o bobl wedi cwblhau'r cwis). Mae'r adnodd hwn wedi bod yn effeithiol mewn cyfweliadau am swyddi, gyda disgyblion ysgol, ac mae wedi cael ei ddefnyddio yn y rhaglen Cyflwyniad i ofal cymdeithasol ac mae ar gael ar y porth swyddi i helpu pobl i ddeall y disgwyliadau o weithio mewn gofal yn well.

Cynhaliwyd sesiynau Recriwtio ar Sail Gwerthoedd ar gyfer cyflogwyr. Roedd y sesiynau hyn yn dangos sut y gall recriwtio drwy werthoedd fod o fudd i gyflogwyr o ran dod o hyd i'r bobl iawn a gwella cadw staff.

## 5.5 Cysylltydd Gyrfa Gofal Rhanbarthol

Er mwyn sicrhau bod y rhaglen genedlaethol yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn buddsoddi £50,000 y flwyddyn ym mhob rhanbarth (wedi'i alinio â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol) i benodi Cysylltydd Gyrfa Gofal Rhanbarthol. Mae'r rôl hon yn hanfodol i ymuno â blaenoriaethau'r rhanbarthau gyda'r rhaglen genedlaethol, gan siapio gweithgareddau, adnoddau a chynnwys yn ogystal â chreu cysylltiadau â gwasanaethau gyrfaoedd lleol, darparwyr dysgu ac asiantaethau a rhaglenni cyflogadwyedd (gweler Atodiad 3 – swyddogaeth Cysylltydd Gyrfa Gofal Rhanbarthol am fanylion).

## 5.6 Arolwg Effaith

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru arolwg o weithwyr a oedd wedi dechrau gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn ystod y chwe mis diwethaf i ofyn am eu barn:

- ar y cyflog byw gwirioneddol fel cymhelliant
- sut yr oeddent wedi chwilio am swyddi yn y sector gofal cymdeithasol
- eu barn am ymgyrchoedd Gofalwn a'u heffaith

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022 gyda chrynodeb o'r canfyddiadau fel a ganlyn yn seiliedig ar 494 o ymatebwyr:

- Roedd bron i hanner yr ymatebwyr heb weithio ym maes gofal cymdeithasol o'r blaen.
- Roedd traean o'r ymatebwyr yn cofio'n glir gweld hysbysebion Gofalwn Cymru ac o'r rheini a wnaeth hynny, y teledu a chyfryngau cymdeithasol oedd yr hyn roeddent yn ei gofio.
- Dywedodd oddeutu hanner y rhai a oedd yn cofio gweld yr hysbysebion eu bod yn ennyn diddordeb ynddynt mewn gweithio ym maes gofal cymdeithasol a bod yr hysbyseb yn dangos gofal cymdeithasol mewn ffordd realistig.
- Dywedodd 60% bod yr hysbysebion yn gwneud iddynt deimlo'n fwy positif am ofal cymdeithasol.
- Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol am eu bod yn mwynhau helpu a chefnogi pobl.
- Ar ôl hynny, y rheswm mwyaf tebygol nesaf yw bod pobl yn mwynhau gweithio yn eu tîm.
- Dywedodd tua chwarter y bobl hefyd eu bod yn dewis gweithio ym maes gofal cymdeithasol oherwydd bod yr oriau'n gyfleus iddynt.

# 6. Cyflwyniad i ofal cymdeithasol a Chyflwyniad i ofal plant

**6.1** Cafodd y rhaglen Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol ei threialu ledled Gorllewin Cymru ddechrau 2021 er mwyn helpu pobl i gael darlun o sut beth yw gweithio ym maes gofal. Cafodd y cynllun peilot ei ariannu gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'i ddarparu gan ranbarthau Gorllewin Cymru a Gorllewin Morgannwg.

Lansiwyd fersiwn ddiwygiedig o'r hyfforddiant ledled Cymru ym mis Ionawr 2022, yn cael ei ariannu drwy'r Grant Economi Sylfaenol.

Mae'r rhaglen cyn-cyflogi tri diwrnod yn rhoi cipolwg i gyfranogwyr ar ofal cymdeithasol cyn ystyried gwneud cais am waith. Drwy gyfuniad o gyllid yr economi sylfaenol a chyllid Gofal Cymdeithasol Cymru, cafodd hwn ei lansio fel cynnig cenedlaethol diwygiedig ddechrau 2022. Ochr yn ochr â'r rhaglen hyfforddi tri diwrnod, cynigir hyfforddiant swydd gan gynnwys ysgrifennu CV, gwneud cais am swyddi, sgiliau cyfweld, ac ati.

Mae rhwydweithiau wedi cael eu datblygu gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio. Mae'r tîm hefyd yn mynychu ffeiriau gyrfaoedd rheolaidd ac yn helpu i gyfrannu at ddylunio cynnwys cyfryngau cymdeithasol. Mae'r tîm wedi datblygu adnoddau ychwanegol ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys cynnwys fideo, taflenni, nwyddau ac ati, i helpu i hyrwyddo'r rhaglen i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Ym mis Gorffennaf, darparwyd gweminar i gyflogwyr i ofyn am eu cefnogaeth i gael cyfweliad wedi'i warantu i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon. Mae dros 100 o gyflogwyr wedi ymuno â'r cynnig hwn.

Rhwng 12 Ionawr a 31 Rhagfyr 2022, mae cyfanswm o 505 o gyfranogwyr wedi cwblhau'r rhaglen, gan gynnwys rhaglen y person ifanc.

Mae traffig y wefan i'r dudalen Cyflwyniad i ofal cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol, o'r 591 o ymwelwyr i'r dudalen ym mis Ebrill, 1,261 ym mis Mai, 1,178 ym mis Mehefin a 2,503 ym mis Gorffennaf.

Mae 94 o gyfranogwyr wedi cael gwaith/ addysg neu gyfle i wirfoddoli:

- Cyfanswm cyflogaeth mewn gofal cymdeithasol gan gynnwys gwaith banc = 66
- Cyflogaeth tu allan i ofal cymdeithasol= 10 (3 mewn gofal plant)
- Addysg = 7
- Gwirfoddoli = 4
- Prentisiaethau = 7

Mae'r hyfforddiant yn cynnig cwrs ar-lein wedi'i hwyluso, ac mae Anogwr Gwaith yn cynnig cefnogaeth cyn ac ar ôl y cwrs i gynadleddwyr. Mae hyn yn helpu unigolion i wella eu gwybodaeth am weithio yn y sector ac mae'r cynnwys yn cyd-fynd ag elfennau o'r rhaglen gynefino.

I gefnogi llif y cyfranogwyr i gyflogaeth, mae cynllun gwarantu cyfweliad wedi'i sefydlu lle mae cyflogwyr yn cynnig cyfweliad i gyfranogwyr sy'n cwblhau'r cwrs. Hyd yma, mae dros 100 o gyflogwyr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun hwn.

Mae hyfforddiant pwrpasol wedi'i gynnal hefyd gyda phobl ifanc, ffoaduriaid o Wcrain a chymunedau Affricanaidd. Mae adnodd ar gyfer ysgolion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gefnogi amrywiaeth yn y sector.

**505**

wedi cwblhau hyfforddiant (Ionawr - Rhagfyr 2022)

**88**

wedi cael gwaith neu addysg bellach

Mae'r rhaglen hyfforddiant gyflwyno i ofal cymdeithasol hefyd wedi ennill Gwobrau Gofal Prydain Fawr - enillydd rhanbarthol Gwobr Datblygu'r Gweithlu.

Great British Care Awards

## 6.2 Cyflwyniad i ofal plant

Yn seiliedig ar y rhaglen Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol, mae'r Cyflwyniad i Ofal Plant yn cael ei dreialu i archwilio'r un dull gweithredu gyda'r sector Gofal Plant. Bydd y cynllun peilot, sy'n cael ei redeg unwaith y mis, yn cael ei werthuso. Bydd hyn yn pennu effeithiolrwydd y dull gweithredu hwn o ran cefnogi recriwtio ar draws y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.



# 7. Y camau nesaf

## 7.1 Ymgyrchoedd

Ddechrau 2023, mae cynlluniau ar waith i ganolbwyntio ar y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Gydag ymgyrch ar y teledu a marchnata y tu allan i'r cartref i roi hwb i amlygrwydd y negeseuon, nod yr ymgyrch hon yw bod yn eang a hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd y sector. Bydd hyn yn cefnogi'r heriau recriwtio sy'n wynebu cyflogwyr.

Ym mis Chwefror 2023, byddwn yn cefnogi Wythnos Prentisiaethau a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag ymgyrch Dewis Doeth Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ffocws ar brentisiaethau gofal. Byddwn hefyd yn cefnogi cyflogwyr i ystyried prentisiaethau i ddenu gweithlu newydd.

Drwy gydol 2022/23, mae sianeli cyfryngau cymdeithasol Gofalwn Cymru wedi bod ar waith drwy'r amser, gydag ymgyrchoedd thematig ar gyfer pob mis. Mae hyn wedi galluogi partneriaid i rannu cynnwys â ni ac mae wedi sicrhau tegwch ar draws yr ystod o leoliadau gofal.  Mae enghraifft o themâu rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2022 i'w gweld isod:

| | |
|---|---|
| **Ebrill** | Gofal plant yn y cartref |
| **Mai** | Cartrefi gofal |
| **Mehefin** | Meithrinfa ddydd |
| **Gorffennaf** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Awst** | Ffocws ar weithwyr cymdeithasol a gofal cymdeithasol |
| **Medi** | Pwysigrwydd yr iaith Gymraeg mewn gofal |
| **Hydref** | Gofal cartref |

## 7.2 Hyrwyddo partneriaethau ac adnoddau a ddatblygwyd

Bydd y gwaith yn parhau i yrru cysylltiadau â phartneriaid allweddol, gan hyrwyddo a gwella ein hadnoddau.

## 7.3 Ymchwil a thystiolaeth

Rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023 bydd yr arolwg o ganfyddiad y cyhoedd yn cael ei ailadrodd. Bydd hyn yn rhoi cipolwg ar ymwybyddiaeth y cyhoedd a'u barn am weithio ym maes gofal. Bydd yr arolwg hefyd yn mesur ymwybyddiaeth o Gofalwn Cymru.  Ar ôl cwblhau'r arolwg, bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi i ddangos y data cyfredol a'r data tueddiadau.

Ar hyn o bryd mae ymchwil wedi'i gomisiynu yn mynd rhagddo i edrych ar heriau a chyfleoedd recriwtio gyda chyflogwyr gofal.  Nod yr ymchwil hwn yw rhoi cipolwg ar sut mae cyflogwyr yng Nghymru yn denu ac yn cadw staff. Bydd hyn yn sail i sut rydym yn helpu cyflogwyr i ddenu a recriwtio staff gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.  Fel rhan o'r ymchwil hwn, hoffem ddeall y rhan y mae Gofalwn Cymru yn ei chwarae mewn gweithgareddau denu a recriwtio cyflogwyr. Hefyd, argymhellion ar sut i ddatblygu'r rhaglen er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr yn well. Bydd yr astudiaeth hon wedi'i chwblhau erbyn mis Ebrill 2023.



## 7.4 2023-24

Mae cynlluniau ar gyfer 2023-24 yn cael eu llunio gyda'n partner creadigol, Golley Slater.  Y nod ar gyfer gwaith parhaus fydd adeiladu ar ein cynnydd hyd yma a bydd yn esblygu o ganlyniadau'r arolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd a'r ymchwil a gomisiynwyd.   Rydym hefyd yn ceisio bod ag agwedd 'ymlaen drwy'r amser' tuag at themâu ehangach fel enw da a dealltwriaeth o'r sector gyda gweithgareddau thematig drwy gydol y flwyddyn.

7.5 Mae ein gwefan bresennol yn cael ei symud i lwyfan newydd ac mae cynlluniau ar y gweill i gyflawni hyn erbyn Mai/Mehefin 2023. Bydd y mudo hwn yn golygu bod modd adnewyddu'r dyluniad a'r cynllun er mwyn sicrhau bod pob agwedd yn canolbwyntio ar y gynulleidfa ac yn cael ei gosod mewn strwythur clir a rhesymegol.  Bydd rhagor o welliannau'n cael eu gwneud i'r porth swyddi er mwyn gallu olrhain yn glir y gwylwyr sy'n edrych swyddi gwag sy'n cael eu hyrwyddo a hefyd i helpu cyflogwyr i ddeall llwyddiant eu swyddi.

Byddwn yn parhau i gefnogi cyflogwyr i ddefnyddio deunyddiau Gofalwn Cymru ar gyfer eu hymgyrchoedd recriwtio, ac nid oes gennym fecanwaith i olrhain recriwtio i swyddi.

7.6 Mae amrywiaeth o ddulliau i weld dealltwriaeth o gyrhaeddiad ac effaith Gofalwn Cymru. Gellir gweld cyrhaeddiad drwy elfennau fel ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol, y nifer sy'n edrych ar astudiaethau achos neu nifer yr ymwelwyr â gwefan Gofalwn Cymru. Mae'r data hwn yn dangos rhyngweithio clir gan wyliwr â'r adnodd perthnasol. Mae data pellach fel 'amser aros' yn dangos faint o amser y bydd ymwelydd yn aros wedi'i gysylltu â'r dudalen we neu'r adnodd. Mae'r data hwn wedi cael ei rannu gydol yr adroddiad hwn.

Does dim modd casglu effaith bob amser. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd rhywun sy'n gwylio hysbyseb teledu yn cael ei ddylanwadu'n gadarnhaol, ond efallai na fydd yn gweithredu ar y newid barn hwnnw am gryn amser. A hyd yn oed pan fydd hynny'n digwydd, er enghraifft argymell i berthynas ystyried gyrfa ym maes gofal, does dim ffordd glir o fesur y digwyddiad hwnnw.

Mae ffocws Gofalwn Cymru ar helpu i godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r sectorau gofal a chefnogi recriwtio.

Gellir gweld ymwybyddiaeth o'r sectorau gofal i'w gweld drwy'r ymgysylltu ag adnoddau (gwefan, astudiaeth achos, neges cyfryngau cymdeithasol ac ati) a gwaith partneriaeth. Gellir gweld cefnogaeth i recriwtio ym maes gofal drwy'r porth swyddi, rhaglenni hyfforddi (fel Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol) a rhaglenni fel Recriwtio ar Sail Gwerthoedd.

Mae llwyddiant pobl sy'n dod i weithio ym maes gofal yn uniongyrchol yn nwylo'r cyflogwr – nid Gofalwn Cymru yw'r sawl sy'n recriwtio, ond yr hwylusydd sy'n dod o hyd i ymgeiswyr posibl. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, rydym yn dal i fwriadu dod o hyd i ffordd o ddangos y gydberthynas rhwng elfen ymgyrchu'r gwaith hwn i bobl sy'n dechrau gweithio yn y sector.



# Atodiad 1 – Ymgyrchoedd Gofalwn Cymru

| Ymgyrch | Crynodeb |
|---|---|
| Lansio'r ymgyrch (Mawrth 2019) | Lansio'r brand a'r prif asedau (delweddau ac astudiaethau achos wedi'u ffilmio). Roedd yn cynnwys y tu allan i'r cartref a'r cyfryngau cymdeithasol gyda sylw yn y wasg ar newyddion y BBC ac ITV.<br><br>Galwad i weithredu gwefan Gofalwn Cymru. |
| Yr iaith Gymraeg a gweithwyr gofal gwrywaidd (Tachwedd 2019) | Roedd yr ymgyrch hon yn adeiladu ar y negeseuon lansio ac yn targedu'r ddwy thema sef yr iaith Gymraeg ac yn tynnu sylw at weithwyr gofal sy'n ddynion er mwyn herio canfyddiadau.<br><br>Roedd yn cynnwys y tu allan i'r cartref a'r cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Galwad i weithredu gwefan Gofalwn Cymru. |
| Wythnos Gofalwn Cymru (Medi 2019) | Roedd pob diwrnod o'r wythnos yn canolbwyntio ar ranbarth gwahanol a oedd yn tynnu sylw at weithgarwch ac yn dangos amrywiaeth o astudiaethau achos.<br><br>Galwad i weithredu adran newyddion gwefan Gofalwn Cymru. |
| Dim ond Gofalwr (Mai 2020) | Ymgyrch deledu a lansiwyd pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Roedd yr hysbyseb yn cynnwys deunydd a ffilmiwyd gan weithwyr gofal mewn cartrefi gofal a defnyddiwyd y gerdd 'Dim ond Gofalwr' fel naratif.<br><br>Mae'r ffocws ar gefnogi'r sector a thynnu sylw at bwysigrwydd gofal mewn cymdeithas.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |
| Ymgyrch Diolch (Mehefin 2020) | Ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein gan ddefnyddio #diolch. Roedd yr ymgyrch yn rhannu neges o ddiolch i weithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan dynnu sylw at y rôl bwysig a chwaraeir gan y sector hwn.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan Gofalwn Cymru. |
| Ymgyrch Gofal Cymdeithasol Cymru (Tachwedd 2020) | Ymgyrch ar y teledu, y cyfryngau cymdeithasol, ar-lein a thu allan i'r cartref a oedd yn canolbwyntio ar rôl gofal cartref. Roedd y fersiwn Gymraeg yn cynnwys gweithiwr gofal gwrywaidd, yn cefnogi'r iaith Gymraeg a hefyd rhywedd mewn rolau gofalu.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |

| | |
|---|---|
| Wythnos Gofalwn Cymru (Tachwedd 2020) | Ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein yn cefnogi gweithgarwch denu a recriwtio rhanbarthol. Roedd pob diwrnod yn canolbwyntio ar thema/lleoliad megis gofal cartref neu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Roedd straeon a negeseuon rhanbarthol yn cael eu hyrwyddo.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan Gofalwn Cymru. |
| Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (Hydref 2020) | Ymgyrch deledu, gyda chefnogaeth cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgyrch hon yn anelu at gefnogi'r sector drwy:<br><br>• dawelu meddwl rhieni a gofalwyr fod lleoliadau'n ddiogel<br>• hyrwyddo manteision lleoliadau ar gyfer llesiant a datblygiad plant<br>• rhoi hwb i forâl y gweithlu drwy dynnu sylw at eu heffaith ar fywydau plant.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan Gofalwn Cymru – adran gofal plant. |
| Ymgyrch Llysgenhadon (Mawrth 2021) | Ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a thu allan i'r cartref yn tynnu sylw at rôl llysgenhadon ym maes gofal ac yn anelu at recriwtio mwy i ymuno â'r rhaglen.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan Gofalwn Cymru – tudalen benodol ar gyfer llysgenhadon. |
| Ymgyrch Gofal Cymdeithasol ar y teledu (Awst 2021) | Dwy hysbyseb deledu yn tynnu sylw at weithio ym maes gofal, gan ganolbwyntio ar ofal cartref. Roedd y fersiwn Saesneg yn tynnu sylw at amrywiaeth yn y gweithlu ac mae'r fersiwn Gymraeg yn tynnu sylw at ddynion sy'n gweithio ym maes gofal.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |
| Wythnos Gofalwn Cymru – gydag OHH (Hydref 2021) | Ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a'r tu allan i'r cartref. Y ffocws ar gyfer yr wythnos hon oedd recriwtio, digwyddiad recriwtio a'r porth swyddi.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |
| Ffocws ar Ofal Cymdeithasol (Rhagfyr/ Ionawr 2022) | Teledu, cyfryngau cymdeithasol, y tu allan i'r cartref a'r radio. Roedd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar ofal cartref mewn ymateb i'r argyfwng cynyddol wrth recriwtio i ofal.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |
| Ymgyrch prentisiaethau (Chwefror 2022) | Teledu, y tu allan i'r cartref a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r ymgyrch hon yn tynnu sylw at brentisiaethau mewn gofal fel llwybr i'r sector. Roedd yn tynnu sylw cyflogwyr at y cyfleoedd y gall prentisiaethau eu cynnig i'r gweithlu.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan Gofalwn Cymru – tudalennau penodol ar gyfer prentisiaethau. |

| | |
|---|---|
| Ymgyrch Gofal Cymdeithasol ar y teledu (Mawrth/Ebrill 2022) | Teledu â'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr hysbyseb deledu newydd hon yn canolbwyntio ar rôl gofal cartref. Roedd yn adeiladu ar y negeseuon presennol ac yn cefnogi pobl a oedd yn ystyried gyrfa ym maes gofal.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |
| Ymgyrch y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar y teledu (Mawrth 2022) | Teledu â'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymgyrch hon yn defnyddio'r hysbyseb deledu bresennol (a ddatblygwyd ym mis Hydref 2020) i roi sylw i'r sector.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |
| Ymgyrch Gofal Cymdeithasol ar y teledu (Awst/Medi 2022) | Teledu, y cyfryngau cymdeithasol a'r tu allan i'r cartref. Roedd yr ymgyrch hon yn defnyddio'r hysbyseb deledu a ddatblygwyd ym mis Mawrth 2022. Gan dynnu sylw at gyfleoedd gyrfa, rhedodd yr ymgyrch mewn ymateb i'r heriau sy'n wynebu sector aciwt y GIG ac oedi wrth drosglwyddo gofal.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan a Phorth Swyddi Gofalwn Cymru. |
| Ymgyrch Gweithwyr Cymdeithasol ar y teledu (Hydref 2022) | Ymgyrch ar y teledu, cyfryngau cymdeithasol, UCAS, Wales Online a digidol.  Roedd yr ymgyrch hon yn tynnu sylw at rôl Gweithiwr Cymdeithasol ac yn cynyddu dealltwriaeth o'r rôl.<br><br>Galwad i weithredu: Gwefan Gofalwn Cymru – tudalen benodol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol. |

# Atodiad 2 - Aelodaeth Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Gofalwn Cymru

- Fforwm Rheolwyr Hyfforddiant Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)
- Rhanbarth Caerdydd a'r Fro
- Llysgennad Gofal
- Fforwm Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Gyrfa Cymru
- Gofal Plant Cymru - Dysgu a Gweithio'n Gydfuddiannol (CWLWM)
- Plant yng Nghymru
- Clybiau Plant Cymru
- Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith
- GMB
- Rhanbarth Gwent
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC)
- Mudiad Meithrin
- Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- NDNA Cymru
- Rhanbarth Gogledd Cymru
- Pacey Cymru
- Chwarae Cymru
- Rhanbarth Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cymdeithas Gofal Cartref
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Llywodraeth Cymru
- Rhanbarth Gorllewin Morgannwg
- Rhanbarth Gorllewin Cymru

# Atodiad 3 - Swyddogaeth Cysylltydd Gyrfa Gofal Rhanbarthol

**Swyddogaeth:**

- Darparu pwynt cyswllt rhanbarthol penodedig ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno ymgyrch ddenu, recriwtio a chadw genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Darparu adnodd yn y rhanbarth i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn barhaus.

**Rhanbarthol/lleol:**

- Sefydlu a chynnal cysylltiadau gydag ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, Addysg Bellach ac Addysg Uwch i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn barhaus
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau gyda Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Canolfan Byd Gwaith, ayb i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn barhaus
- Cyfrannu at ddatblygu a hyrwyddo gwybodaeth am yrfaoedd yn unol â'r ymgyrch genedlaethol a chefnogi'r gwaith o hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn y rhanbarth
- Canfod cyfleoedd mewn ffeiriau swyddi a digwyddiadau gyrfa a chytuno a ddylid eu mynychu ai peidio
- Cyfrannu at ddatblygu cyfleoedd lleoli ystyrlon ar gyfer ceiswyr swyddi a dysgwyr
- Mapio arferion recriwtio yn y rhanbarth, gan gynnwys dulliau hysbysebu, dulliau recriwtio, ac ati.
- Mapio mentrau cymorth cyflogaeth yn y rhanbarth a darparu dolenni at lwybrau ar gyfer gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Hyrwyddo'r defnydd o adnoddau Gofal yn Galw i hybu arferion recriwtio effeithiol
- Sefydlu mecanweithiau i gael gafael ar neu ddarparu sgiliau chwilio am swydd megis ysgrifennu CV, technegau o ran ymgeisio am swydd a chyfweliadau.

**Cenedlaethol:**

- Cyfrannu at ddatblygu a chynnal yr ymgyrch ddenu, recriwtio a chadw genedlaethol a'i gwefan
- Gweithredu fel y cyswllt rhanbarthol ar gyfer ymholiadau o wefan yr ymgyrch genedlaethol
- Darparu adroddiadau hanner blwyddyn a blynyddol ar lefelau gweithgarwch yn y rhanbarth
- Cyfrannu fel aelod o rwydwaith cenedlaethol o Gysylltwyr Gyrfa Gofal Rhanbarthol a hwylusir gan Ofal Cymdeithasol Cymru
- Nodi a rhannu arferion da o ran denu, recriwtio a chadw staff sy'n digwydd ar lefel ranbarthol
- Cynorthwyo i fesur a gwerthuso effaith a llwyddiant yr ymgyrch genedlaethol ac yn enwedig yn eu rhanbarth hwy
- Canfod a chyfeirio at lysgenhadon gofal posibl
- Cyfrannu at ddatblygu adnoddau a deunyddiau i gefnogi cynlluniau denu, recriwtio a chadw cenedlaethol
- Cyfrannu at gyflwyno digwyddiadau gyrfaoedd cenedlaethol e.e. Sgiliau Cymru.